

Helpa Fi i Stopio...yr unig frand ar gyfer gwasanaethau stopio ysmegu yng Nghymru.

Ar 19 Ebrill 2017, bydd *Helpa Fi i Stopio* yn cael ei gyflwyno fel y cam cyntaf tuag at greu system rhoi'r gorau i ysmegu integredig i Gymru. Gydag un brand, rhif ffôn rhad ac am ddim a gwefan newydd, bydd *Helpa Fi i Stopio* yn ei gwneud hi'n haws i ysmygwyr gael at gymorth i roi'r gorau i'r arfer. Bydd ymgyrch gyhoeddus yn annog ysmygwyr i gysylltu â thîm canolfan gyswllt *Helpa Fi i Stopio*:

ar **0800 085 2219**
neu www.helpmequit.wales
neu trwy anfon 'HMQ' mewn neges destun at **80818**.

Yna, bydd ysmygwyr yn cael cymorth i lunio eu taith at roi'r gorau i ysmegu, yn seiliedig ar y gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu sydd ar gael iddynt yn lleol.

Pam?

Mae cyfran yr ysmygwyr sy'n cael eu trin trwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu'r GIG wedi bod yn gyson is na'r targed o 5% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod gan ysmygwyr lefel isel o ymwybyddiaeth o'r opsiynau triniaeth sydd ar gael trwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu'r GIG. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae Is-grŵp Rhoi'r Gorau i Ysmegu Bwrdd Strategol Rheolaeth Tybaco Cymru yn arwain y gwaith datblygu ar system integredig ar gyfer gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu yng Nghymru. Y brand, *Helpa Fi i Stopio*, yw'r cam cyntaf tuag at system integredig.

Pryd a sut?

Bydd *Helpa Fi i Stopio* yn cael ei lansio ar **19 Ebrill 2017** gyda hysbysebion teledu yn rhedeg am bythefnos ar ITV Wales ac S4C. Yna, bydd y brand yn cael ei hyrwyddo trwy gyfryngau galw i weithredu 'awyr agored' - byrddau poster, blychau ffôn, faniau hysbysebu, tu mewn a thu allan i fysiau - ar draws y wlad. Trwy gydol yr ymgyrch gychwynol, bydd yna bresenoldeb digidol wedi'i dargedu ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau digidol eraill. Yn ogystal, bydd dulliau cyfathrebu â rhanddeiliaid, asedau brand a chanllawiau yn cynnwys deunyddiau wedi'u hargraffu ar gael.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae *Helpa Fi i Stopio*, ynghyd â'r system integredig gysylltiedig, wedi'u dylunio i sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle gorau posibl i ysmygwyr Cymru roi'r gorau i'r arfer. Mae angen eich cymorth chi arnom ni i sicrhau ei llwyddiant. Rydym yn annog pawb sy'n dod i gyswllt ag ysmygwyr neu sy'n darparu gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu i hyrwyddo'r brand newydd.

Bydd pecyn cyfathrebu'n cael ei ddsbarthu i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol, o ganol mis Ebrill.

Cysylltu â ni: helpmequit@wales.nhs.uk

Ashley Gould, Arweinydd Ymgyngorol Rheoli Tybaco, Iechyd Cyhoeddus Cymu